# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 06/08/25 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 07/08/25 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 14/08/25 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo: Cyng. Paul Rowlinson

**PWNC** - **Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor yn 1 Sŵn y Gwynt, Bala**

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor yn 1 Sŵn y Gwynt, y Bala, trwy ei drosglwyddo i'r lesddeiliad presennol ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 06/08/2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | Paul Rowlinson |

**Pwnc :**

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor yn 1 Sŵn y Gwynt, Bala

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cymeradwyo gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor yn 1 Sŵn y Gwynt, y Bala, trwy ei drosglwyddo i'r lesddeiliad presennol ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae angen Penderfyniad Aelod o'r Cabinet i waredu eiddo lle mae ei werth yn fwy na £25,000.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Er mwyn cael y gwerth gorau am ei asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dull traddodiadol o waredu eiddo'r Cyngor yw hysbysebu ar y farchnad agored gan wahodd cynigion fel bod gan unrhyw barti sydd â diddordeb y cyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

Yn yr achos hwn, mae'r eiddo eisoes wedi'i brydlesu i'r tenant ar brydles hirdymor tra bod y Cyngor yn parhau i fod yn berchen ar y teitl rhydd-ddaliadol i'r tir. O'r herwydd, mae'r tenant yn fodlon talu elfen o bremiwm er mwyn cyfuno eu prydles â'r teitl rhydd-ddaliadol.

Pe bai'r Cyngor yn cynnig yr eiddo ar y farchnad agored yn amodol ar y brydles bresennol, byddai terfyn ar y gwerth y byddai trydydd parti yn fodlon ei dalu am y safle.

Ystyrir bod y budd rhydd-ddaliadol yn yr eiddo hwn yn ormod i ofynion y Cyngor. Nid oes unrhyw fwriad i waredu llai na gwerth y farchnad.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.


**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – **Dewi Morgan –** “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

**Swyddog Monitro** – **Iwan Evans** – “Rwy’n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad”

**Aelod/au Lleol – Cyng. Alan Jones Evans** – “Ni allaf weld unrhyw reswm dros wrthwynebu’r cais hwn”




# Swn y Gwynt - Plan

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd